
| *Rhif*: ***19*** | *Enw'r Ardal Cymeriad Morwedd* | **Bishops and Clerks** |
|---|---|---|




**ACM19:Bishop and Clerks**



*Golygfa o'r Bishops and Clerks o Garn Llidi. Gorwedd Ynys Dewi i'r chwith a Phenmaendewi i'r dde.*

## Disgrifiad Cryno

Mae'r ardal agored hon o fôr i'r gorllewin o Benmaendewi ac Ynys Dewi gan gynnwys cyfres o riffiau ac ynysigau creigiog sy'n beryglon adnabyddus i gychod ond hefyd yn lloches i fywyd gwyllt ac yn atyniadol ar gyfer hamdden gan gynnwys teithiau bywyd gwyllt a deifio. Mae goleudy anghysbell South Bishop yn nodi'r ymyl allanol.

## Nodweddion Allweddol

- Cyfres o riffiau ac ynysigau craig ar hyd cribau tanddwr gyda sianelau gweddol ddwfn hwnt ac yma oddi ar arfordir y gorllewin.
- Ardal morwedd agored gyda phwysau uchel gan y tonnau, cerhyntau llanwol cryfion a llanwau terfol a throsgwymp o amgylch y creigiau.
- Bywyd gwyllt o amgylch y creigiau gan gynnwys palod, morloi, llamhidyddion a dolffiniaid.
- Sawl llongddrylliad yn enwedig o amgylch North Bishop.
- Mae goleudy South Bishop yn nodi'r ymyl orllewinol ac yn pwysleisio natur peryglus y dyfroedd.
- Peth hamdden gan gynnwys teithiau bywyd gwyllt, hwylio a deifo.
- Ymdeimlad anghysbell, gwyllt a llonydd cryf gyda golygfeydd at prif dir ac Ynys Dewi ac ymdeimlad o ddrama a bygythiad o amgylch ynysigau creigiog.
- Mae'r ardal yn rhan o olygfa eiconig y Parc o Garn Llidi i Ynys Dewi

## Nodweddion Ffisegol

Mae'r ardal yn cynnwys cyfres o ynysigau craig igneaidd neu fasddwr, a ffurfiwyd gan gabro gwydn a mewnwthiadau asid ar hyd cefnenau tanddwr sy’n taro gogledd-ddwyrain - de-orllewin, wedi eu gwahanu gan sianelau gweddol ddwfn (30-60m). Mae llawr graeanog tywodlyd neu greigiog bas (<30m) y môr, sydd ar oledd cymedrol (1-10$^{o}$), yn amgylchynu'r ynysigau. Mae gwaddodion llawr y môr o sianelau rhwng rhesi o ynysigau yn gorchuddio craigwely tywodfaen a charreg laid Cambro-Ordoficaidd sy’n taro gogledd-ddwyrain - de-orllewin. Mae'r môr yn agored i bwysedd uchel y gwynt a'r tonnau, ac mae ynysigau neu greigiau tanddwr bas yn gysylltiedig â cherhyntau terfol llanwol a throsgwympiadau. Mae'r dyfroedd rhwng Ynys Dewi a'r ynysigau yn gallu bod yn arw, gyda llanwau'r gwanwyn hyd at 5 milltir fôr.

Glannau creigiog ynni uchel o amgylch ynysigau a llethrau serth, rhai a thirwedd gymedrol (e.e. North Bishop <38m UDO, Carreg Rhoson <26m UDO), tra bod ynysigau eraill ond yn cael eu dadorchuddio gan y llanw. Mae yna gilfachau creigiog dwfn, sy'n gyffredinol agored i ynni'r gwynt a'r tonnau. Mae ardaloedd rhynglanwol yn lannau creigiog ynni uchel. Mae'r gwynt a'r tonnau'n erydu trwy sgrafelliad. athreuliad a symudiadau hydrolig.

Daw'r ardal o dan ACA Sir Benfro Forol a SoDdGA Ynysigau Oddi ar y Lan Penfro. Mae gan North Bishop gytref bach o balod a morloi llwyd. Mae Palod Manaw'n amlwg. Gwelir llamhidyddion, ac i raddau llai, dolffiniaid, a gwelir morfilod ar adegau.

## Dylanwad diwylliannol

Gwelir enghraifft o'r llwybrau a'r cysyllteddau hanesyddol mewn enwau llefydd Norsaidd, y goleudy, a llongddrylliadau. Roedd Goleudy South Bishop yn dangos y ffordd i gychod a oedd yn teithio oddi ar y lan ac yn gymorth i'r cychod a oedd yn hwylio o amgylch y grŵp o ynysoedd. Fe'i adeiladwyd ym 1839 a'i newid at weithrediad trydanol ym 1959 ac roedd yn llwyr awtomataidd erbyn 1983. Roedd James Walker FRS, adeiladwr y goleudy, yn beiriannydd cynhyrchiol. Roedd y llongddrylliadau'n cynnwys cychod stêm a gollwyd yn yr 20$^{fed}$ ganrif, gan ddangos pa mor beryglus oedd y creigiau hyn i forwyr. Mae tua 13 o longddrylliadau wedi eu cofnodi, pob un yn gorwedd yn erbyn yr ynysigau amrywiol gyda'r mwyafrif o amgylch North Bishop sef y gyfres allanol fwyaf gogleddol. Mae'r rhain yn cynnwys y Morna [1855], y Colonian [1915] a'r Cwmric Prince [1917]. Gorwedd y Wiema i'r de, a suddodd ym 1961.

Daw enw arall South Bishop, Emsger, o'r gair Hen Norseg *sker* - sef skerry, craig ynysig yn y môr. Mae yna grŵp o ynysigau 'Bishop and Clerks' yn Awstralia hefyd.

Mae pob ynys yn bwysig ar gyfer bywyd gwyllt ac felly'n denu cychod modur a hwylio a theithiau, sawl un yn dod o Borthstinian. Mae'r rhain yn defnyddio cychod rwber gwynt cyflym, hydrin gan fwyaf, ond hefyd cychod arafach. Mae North Bishop yn boblogaidd ymhlith deifwyr gyda'u cychod yn sefyll wrth law. Mae cychod mordeithio modur a hwyliau yn dilyn llwybr mordeithio arfordirol sy'n cael defnydd trwm i Ogledd Cymru ac Iwerddon, ac oddi yno, ac yn defnyddio'r llwybr allanol i osgoi Swnt Dewi. Yn aml, mae cychod masnach yn aros ym Mae Sain Ffraid i fynd i mewn i Ddyfrffordd Aberdaugleddau, yn enwedig mewn tywydd garw.

Mae gan oleudy Craig South Bishop olau mordwyo, goleufa radar a chorn niwl sy'n dweud bod y Bishops a'r Clerks gerllaw ar y rhannau mwyaf gorllewinol.

Mae pysgota yn yr ardal yn cynnwys rhwydau wedi eu gosod i'r gogledd, dal crancod a chimwch mewn potiau ac mae yna botensial ar gyfer man-dreillio estyllod. Yn y gorffennol rhoddwyd trwydded Rownd 24 i'r ardal ar gyfer olew a nwy a gellir gwneud ceisiadau yn y dyfodol.

**Nodweddion esthetig, canfyddiadol a phrofiadol**

Ni ymwelwyd â'r ardal, er yr ymwelwyd â'r dyfroedd i'r de ym Mae Sain Ffraid ac o amgylch Ynys Dewi, ac mae'r ardal wedi cael ei gweld o Garn Llidi. Disgwylir i'r North Bishop deimlo fwyaf ynysig tua 5km o'r arfordir. Byddai'r arfordir yn amlwg pan fydd gwelededd glir gyda Charn Llidi a Charn Llundain yn brif dirnodau ar bwyntiau allanol yr ardaloedd ble mae'r prif dir ac fe fydd Ynys Dewi yn ymddangos fel llinell un dimensiwn ar y gorwel gyda lliwiau syml. Yn agosach i mewn, fe fydd manylder a gwahanu'r crynswth tir yn amlwg.

Mae gan yr ardal gymeriad syml, cyson ac unedig ar raddfa fawr ac ymdeimlad agored, ynysig a noeth, gyda chreigiau llinol a riffiau hwnt ac yma, sy'n dod yn ffocws gweledol wrth nesau atynt. Pennir y rhinweddau'n gyfan gwbl gan rymoedd naturiol y dŵr, trwy ymchwydd a thonnau, a gwynt, er bod y creigiau'n dod â drama i'r forwedd gyda thonnau'n taro a chwistrellu mewn rhai amodau. Mae'r ardal yn agored i wyntoedd y de-orllewin ac mewn amodau tywydd gwael mae'r môr yn debygol o deimlo'n fygythiol yn enwedig yn agos at y creigiau. Mae goleudy anghysbell South Bishop yn atgof o'r peryglon hyn a dyma hefyd yw'r prif ffynhonnell golau yn yr ardal hon. Mewn amodau llonydd, fel adeg cyfnos, mae'r moroedd yn gallu bod yn heddychlon. Mae yna debygrwydd cryf o lonyddwch ac ymdeimlad o wylltineb a phellenigrwydd yn yr ardal hon. Mae bywyd gwyllt, yn enwedig o amgylch y creigiau, yn cyfoethogi profiad y morwedd.

Fe fydd cychod hamdden yn amlwg, yn enwedig yn y prif dymor, gan fod hon yn ardal boblogaidd ar gyfer gwylio bywyd gwyllt, hwylio a deifio. Fe fydd hyn yn gostwng yr ymdeimlad o bellenigrwydd a llonyddwch o fewn yr ardal. Efallai y bydd modd gweld cychod masnachol ar adegau.

O'r prif dir, mae'r ardal yn ffurfio rhan bwysig o'r golygfeydd godidog o Garn Llidi, Penmaendewi, Y Porth Mawr a Swnt Dewi, a Llwybr yr Arfordir. Dyma arfordir gorllewinol Cymru, sy'n wyllt a heb ei ddifetha, ac mae'r ynysigau yn ei gyfoethogi gan roi ymdeimlad o bersbectif a diddordeb gweledol.

**Buddion diwylliannol a gwasanaethau**

Mae'r ardal yn cyfrannu at wasanaethau hamdden ar ffurf hamdden forol, gan gynnwys teithiau bywyd gwyllt, at dreftadaeth naturiol ar ffurf bywyd gwyllt, ardal forol heb ei difetha sy'n weladwy o arfordiroedd sensitif y Parc Cenedlaethol ac at wasanaethau ysbrydol mewn perthynas ag ymdeimlad o wylltineb a chysylltedd gyda natur.

## Rhesymau dros newid

**Crynodeb**

Erydiad y gwynt a'r tonnau o amgylch ynysigau agored. Yng nghynllun rheoli'r traethlin mae'n dweud 'Gwneud dim byd'.

Fe allai'r cynnydd mewn traffig cychod masnach i mewn i’r Aber ostwng llonyddwch.

Fe allai cynnydd mewn cychod hamdden, gan gynnwys teithiau, ostwng llonyddwch.

Byddai trwyddedau ar gyfer olew a nwy yn y dyfodol yn newid cymeriad yr ardal pe bai'n cael ei datblygu.

**Rhesymau allweddol dros newid**

| **Rhinweddau Arbennig** | Prosesau naturiol/newid hinsawdd | Gwasgedd ymwelwyr | Defnydd morol - masnachol a physgota | Egni ar y môr | Gwasgedd datblygiad | Newidiadau rheoli tir | Defnydd MOD |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ysblander yr Arfordir | | | | | | | |
| Ynysoedd | | ■ | | ■ | | | |
| Amrywiaeth y Tirlun | | | | | | | |
| Pellenigrwydd, Tawelwch a Diffeithwch | | ■ | ■ | ■ | | | |
| Daeareg Amrywiol | | | | | | | |
| Cyfoeth Cynefinoedd a Bioamrywiaeth | | ■ | ■ | ■ | | | |
| Archeoleg Gyfoethog | | | | | | | |
| Cymeriad Anheddiad Nodedig | | | | | | | |
| Treftadaeth Ddiwylliannol | | | | | | | |
| Mynediad i’r Parc | | | | | | | |
| Lle i Anadlu | | | ■ | ■ | | | |
| **Allwedd** | ■ | Newid yn digwydd yn yr ardal sy'n effeithio ar y nodwedd arbennig ddewisedig | | | | | |

## Sensitifeddau allweddol

Cymeriad gwyllt, anghysbell a heddychlon, heb ei ddifetha, heb unrhyw ddatblygiad ac eithrio'r goleudy sy'n pwysleisio pellenigrwydd.

Cymeriad naturiol y creigiau a'r riffiau.

Bywyd gwyllt o amgylch y creigiau gan gynnwys palod, morloi, llamhidyddion a dolffiniaid.

Y defnydd o'r ardal fel cyrchfan i'r rheiny sydd wrth eu bodd â byd natur.

Cyfraniad at yr olygfa a gweledledd o rai o'r rhannau mwyaf sensitif o'r arfordir gan gynnwys Penmaendewi, Carn Llidi a Llwybr Arfordir Sir Benfro e.e. at Ynys Dewi.

Presenoldeb peth hamdden gan gynnwys teithiau bywyd gwyllt, hwylio a deifio.

Mae'r goleudy yn ffynhonnell golau ac yn nodwedd amlwg (er ei fod yn pwysleisio'r pellenigrwydd).